Taflen ffeithiau
**5**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru

# Hawl Dinasyddion yr UE i astudio

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys crynodeb byr o hawl Dinasyddion yr UE i astudio yng Nghymru. Yn y daflen ffeithiau hon, mae 'dinasyddion yr UE' yn cynnwys dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â dinasyddion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein), a dinasyddion y Swistir.

Yn ogystal, mae'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â hawliau aelodau teuluol nad ydynt yn ddinasyddion yr UE eu hunain, lle mae eu hawl i fyw yn y DU yn deillio o'u perthynas â dinesydd yr UE neu ddinesydd Prydeinig sydd wedi arfer hawliau rhyddid i symud fel gweithiwr, person hunangyflogedig, person hunangynhaliol neu fyfyriwr mewn gwlad letyol yn yr AEE yn union cyn dychwelyd i'r DU[1].

Yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (Brexit), mae hawliau dinasyddion yr UE yng Nghymru wedi newid mewn rhai ffyrdd pwysig.

Dylai dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu a oedd yn byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020, ac sy'n dymuno aros yng Nghymru, fod wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), naill ai am Statws Preswylydd Sefydlog (caniatâd amhenodol i aros) neu Statws Preswylydd Cyn-Sefydlog (caniatâd cyfyngedig i aros am 5 mlynedd). Nid oedd rhaid i ddinasyddion Iwerddon a phobl â chaniatâd amhenodol i aros wneud cais.

Gall dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu na wnaethant gais i'r EUSS, neu y mae eu statws preswylydd cyn-sefydlog wedi dod i ben, wneud cais o hyd os ydynt yn gymwys ac yn gallu dangos 'sail resymol' dros beidio â bod wedi gwneud cais erbyn y terfyn amser neu ers i'r terfyn amser basio.

Ni all dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd y DU am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021 gyflwyno cais am Statws Preswylydd Sefydlog na Statws Preswylydd Cyn-sefydlog. Maent yn cyrraedd fel Ymwelwyr Tymor Byr. Os dymunant aros am fwy nag ymweliad byr o hyd at 6 mis, rhaid iddynt gyflwyno cais am Fisa Tymor Hir (er enghraifft, i astudio, neu i weithio, neu i ymuno ag aelod o'u teulu). Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Fisâu Tymor Hir yn: www.gov.uk/student-visa.

Yn achos aelodau o deuluoedd dinasyddion yr UE nad ydynt yn dod o'r UE, dim ond os ydynt yn meddu eisoes ar drwydded deulu'r EUSS y gallant bellach ddod i'r DU. Nid yw trwydded deulu'r AEE, na cherdyn preswylio biometrig y DU, yn ddilys bellach yn y DU.

Bydd eVisa gan ddinasyddion sydd â cherdyn preswylio biometrig (BRC) ac sydd wedi cael statws o dan Gynllun Preswylio'n Sefydlog i'r UE.

Mae eVisa yn gofnod ar-lein o statws mewnfudo rhywun ac amodau eu caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, mae hefyd yn caniatáu i unigolyn rannu ei statws mewnfudo â thrydydd partïon pan fo angen.

1 Gall 'aelodau teuluol' gynnwys: eich priod neu eich partner sifil, eich plant, eich wyrion/wyresau a'ch gorwyrion/gorwyresau dan 21 oed, eich plant dibynnol dros 21 oed, eich rhieni dibynnol, eich teidiau a'ch neiniau dibynnol, eich hen deidiau a'ch hen neiniau dibynnol, a rhai partneriaid dibriod a pherthnasau dibynnol eraill (pan fo'r Swyddfa Gartref wedi rhoi tystysgrif cofrestru 'aelod estynedig o'r teulu').

## A oes gan ddinasyddion yr UE yr hawl i astudio yng Nghymru?

### Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

**Holl ddinasyddion yr UE**
Mae rhieni yn gyfrifol am sicrhau bod eu plant yn cael eu haddysgu. Maent fel arfer yn gwneud hyn drwy anfon eu plentyn i'r ysgol. Mae gan bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yr hawl i le am ddim  mewn ysgol gynradd ac ysgol uwchradd. Mae rhai rhieni'n dewis anfon eu plentyn i ysgol annibynnol sy'n codi ffioedd neu'n dewis eu haddysgu gartref. Dylai dinasyddion yr UE gysylltu â'u hawdurdod lleol os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am hawl eu plentyn i le am ddim yn eu  hysgol leol.

### Addysg Bellach ac Uwch

**Dinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Sefydlog, Statws Preswylydd Cyn-sefydlog neu a gyflwynodd gais i'r EUSS**
Mae gan Ddinasyddion yr UE yr hawl i astudio mewn coleg neu brifysgol yng Nghymru. Mae gan ddinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Sefydlog yr hawl i astudio yng Nghymru am gyfnod amhenodol. Mae gan ddinasyddion yr UE sydd â Statws Preswylydd Cyn-sefydlog yr hawl i astudio yng Nghymru hyd nes y daw eu statws i ben. Os ydych chi'n ddinesydd yr UE a'ch bod wedi gwneud cais i'r EUSS (hyd yn oed ar ôl y dyddiad cau), a'ch bod yn disgwyl penderfyniad, rydych yn cadw'r hawl i weithio ac astudio tan i chi gael Statws Preswylydd Sefydlog neu Statws Preswylydd Cyn-sefydlog (neu tan na allwch mwyach apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod eich cais).

Ar ôl gwneud cais i'r EUSS, rhoddir Tystysgrif Ymgeisio i unigolion i brofi eu statws gwarchodedig, fel mesur dros dro, wrth iddynt aros am ganlyniad eu cais. Gallant ddefnyddio'r dystysgrif hon fel prawf o'u statws i gofrestru mewn sefydliad addysg uwch neu bellach.

## Dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd am y tro cyntaf ar, neu ar ôl, 1 Ionawr 2021

**Ymwelwyr Tymor Byr**
Caniateir i ddinasyddion yr UE sy'n cyrraedd fel Ymwelwyr Tymor Byr ddilyn cwrs astudio byr neu gymryd rhan mewn ymchwil academaidd, cyn belled nad yw'n para mwy na chwe mis. Os ydych yn ddinesydd yr UE, nid oes angen i chi wneud cais am fisa cyn cyrraedd, ond rhaid i chi ddangos prawf bod gennych ddigon o arian i gefnogi eich hun yn ystod eich astudiaethau yn y DU.

Ni chaniateir i chi wneud y canlynol:

- gweithio am dâl neu'n ddi-dâl i gwmni yn y DU
- gweithio fel unigolyn hunangyflogedig
- cymryd rhan mewn lleoliad gwaith neu interniaeth.

**Deiliaid Fisa Tymor Hir**
Rhaid i ddinasyddion yr UE ac aelodau o'u teulu sy'n dymuno astudio am fwy na chwe mis wneud cais am Fisa Tymor Hir. Yn y rhan fwyaf o achosion, os caiff y fisa hwn ei roi, bydd gan ddinasyddion yr UE yr hawl i fyw yn y DU ac astudio, fel arfer i gwblhau cwrs neu gymhwyster penodol mewn sefydliad academaidd penodol. Os ydych yn ddinesydd yr UE a'ch bod yn dymuno newid eich sefydliad academaidd, neu eich cwrs neu gymhwyster, efallai y bydd angen i chi geisio newid telerau eich fisa neu ailymgeisio am Fisa Tymor Hir.

**Faint fydd astudio yng Nghymru yn ei gostio i ddinesydd yr UE?**
Dylai dinasyddion yr UE ystyried a allant fforddio astudio, neu barhau i astudio, yng Nghymru. Gall colegau a phrifysgolion yng Nghymru godi ffioedd a bydd y swm a godir arnoch hefyd yn dibynnu ar a ydych chi'n gymwys i gael statws 'ffioedd cartref'.

## Statws Ffioedd Cartref

### Myfyrwyr sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2020-21 (neu'n gynharach)

Bydd dinasyddion aelod-wladwriaethau'r UE a ddechreuodd gwrs addysg bellach neu uwch yng Nghymru yn 2020-21 neu'n gynharach yn elwa ar statws 'ffioedd cartref' gydol eu cwrs. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i wladolion yr AEE a'r Swistir.

### Myfyrwyr sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2021-22 (neu'n ddiweddarach)

Mae gwladolion yr UE, yr AEE a'r Swistir sy'n elwa ar hawliau dinasyddion o dan y gwahanol gytundebau ymadael, aelodau o deulu pobl o Ogledd Iwerddon, plant gwladolion y Swistir, plant gweithwyr o Dwrci, gwladolion y DU sy'n byw yn yr AEE a'r Swistir, gwladolion y DU a'r UE sy'n byw yn Gibraltar a dinasyddion Prydain ac Iwerddon o dan drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin, sy'n dechrau cwrs addysg bellach neu uwch ar neu ar ôl 1 Awst 2021 yn dal i fod yn gymwys i gael statws 'ffioedd cartref'. Bydd amodau preswylio'n berthnasol a bydd y coleg neu'r brifysgol yn gyfrifol am gadarnhau statws ffioedd Dinasyddion yr UE.

Os oes gan ddinesydd yr UE statws 'ffioedd cartref' a'i fod yn 16-19 oed, ni fydd colegau AB yn codi ffi dysgu arno. Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid iddo dalu ffi os yw'n ddysgwr mewn coleg ac yn 19 oed neu fwy. Bydd y coleg yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i ddinasyddion yr UE am y ffioedd y mae'n eu codi.

Ni fydd dinasyddion yr UE a gwladolion eraill yr AEE a'r Swistir ac aelodau o'u teuluoedd nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y gwahanol gytundebau ymadael, ac sy'n dod i Gymru am y tro cyntaf i ddechrau cwrs ym mlwyddyn academaidd 2021-22, yn gymwys i gael statws 'ffioedd cartref' a bydd eu coleg neu brifysgol yn codi ffioedd uwch arnynt.

## Cyllid Myfyrwyr Cymru – Cymorth i Fyfyrwyr

### Myfyrwyr sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2020-21 (neu'n gynharach)

Bydd dinasyddion yr UE, gwladolion yr AEE a'r Swistir ac aelodau o'u teuluoedd, a ddechreuodd gwrs addysg bellach neu uwch cyn 1 Awst 2021 yn parhau i gael benthyciadau a grantiau myfyrwyr gan Cyllid Myfyrwyr Cymru gydol eu cwrs, os byddant yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwystra.

### Myfyrwyr sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2021-22 (neu'n ddiweddarach)

Gall dinasyddion yr UE, gwladolion yr AEE a'r Swistir sy'n elwa ar hawliau dinasyddion o dan y gwahanol gytundebau ymadael, aelodau o deuluoedd pobl o Ogledd Iwerddon, plant gwladolion y Swistir, plant gweithwyr o Dwrci, gwladolion y DU sy'n byw yn yr AEE a'r Swistir, gwladolion y DU a'r UE sy'n byw yn Gibraltar a dinasyddion Prydain ac Iwerddon o dan drefniant yr Ardal Deithio Gyffredin, sy'n dechrau cwrs addysg bellach neu uwch ar neu ar ôl 1 Awst 2021 yng Nghymru fod yn gymwys i wneud cais am fenthyciadau i fyfyrwyr a grantiau gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd amodau preswylio'n berthnasol.

Ni fydd dinasyddion yr UE a gwladolion eraill yr AEE a'r Swistir ac aelodau o'u teulu nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y gwahanol gytundebau ymadael, ac sy'n dod i Gymru am y tro cyntaf i ddechrau cwrs ym mlwyddyn academaidd 2021-22, yn gymwys i gael benthyciadau i fyfyrwyr a grantiau gan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Mae colegau a phrifysgolion yng Nghymru yn darparu eu bwrsarïau, eu hysgoloriaethau a'u cyllid disgresiynol eu hunain. Bydd angen i fyfyrwyr gysylltu â'u coleg neu eu prifysgol yn uniongyrchol i gael rhagor o wybodaeth am gymhwystra a sut i wneud cais.

## Sut mae dinasyddion yr UE yn profi eu hawl i astudio?

Fel arfer, mae plant o oedran cynradd ac uwchradd yn cael lle mewn ysgol leol sy'n gwasanaethu eu dalgylch. Gellir cofrestru plant mewn ysgol gynradd neu uwchradd drwy wneud cais i'w hawdurdod lleol. Rhaid i rieni neu ofalwyr brofi pwy yw'r plentyn a'i fod yn preswylio yn yr ardal leol.

### Addysg Bellach ac Uwch

O 1 Gorffennaf 2021, rhaid i ddinasyddion yr UE ddangos eu bod wedi gwneud cais i'r EUSS, bod ganddynt Statws Preswylydd Sefydlog, Statws Preswylydd Cyn-Sefydlog neu fath arall o ganiatâd i aros (megis Fisa Tymor Hir) i brofi eu hawl i aros ac i barhau i astudio yng Nghymru.

Os ydych chi'n ddinesydd yr UE ac wedi gwneud cais dilys o dan yr EUSS ond nad yw eich cais wedi'i benderfynu eto, gallwch hefyd ddarparu tystiolaeth o'ch cais (Tystysgrif Ymgeisio) fel prawf o'ch hawl i aros a pharhau i astudio yng Nghymru. Bydd angen i chi roi prawf o'ch preswylfa i fodloni meini prawf cymhwystra ar gyfer 'ffioedd cartref' neu gyllid myfyrwyr.

Bydd deiliaid statws Preswylydd Cyn-sefydlog nad ydynt yn gwneud cais am statws Preswylydd Sefydlog cyn y dyddiad y daw eu statws Preswylydd Cyn-sefydlog i ben yn colli eu hawl i astudio yng Nghymru a'u hawl i gael mynediad at gyllid myfyrwyr.

## Newid hyd yr estyniad statws cyn-sefydlog i 5 mlynedd

Bydd y Swyddfa Gartref yn cynyddu hyd estyniadau statws cyn-sefydlog o 2 i 5 mlynedd (dyddiad gweithredu eto i'w gadarnhau). Ers Mai 2024, mae'r Swyddfa Gartref wedi cynyddu hyd estyniadau statws cyn-sefydlog o 2 i 5 mlynedd.

Ni fydd hyn yn effeithio ar neb sydd eisoes â statws Preswylydd Sefydlog neu sydd wedi dod yn ddinesydd Prydeinig yn y cyfamser.

### Sut fydd hyn yn gweithio i ddeiliaid statws Cyn-sefydlog?

- Nid oes angen i ddeiliaid statws Preswylydd Cyn-sefydlog gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i'r newid hwn.
- Bydd yr estyniad yn cael ei adlewyrchu yn eu statws digidol a bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol i roi gwybod iddynt fod hyn wedi'i wneud. Nid oes angen iddynt gysylltu â'r Swyddfa Gartref.
- Rydym yn parhau i annog dinasyddion yr AEE ac aelodau o'u teuluoedd i wneud cais am statws Preswylydd Sefydlog o dan yr EUSS cyn gynted ag y byddant yn gymwys, i gael cadarnhad sicr o'u hawl i aros yn barhaol yn y DU. Gallwch wneud cais i newid i statws sefydlog yn rhad ac am ddim yn www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families/applying-for-settled-status. Mae amrywiaeth eang o gymorth a chefnogaeth ar gael i ymgeiswyr sydd ei angen.

## Uwchraddio statws unigolion i Statws Preswylydd Sefydlog yn Awtomatig

O 2025, bydd y Swyddfa Gartref yn dechrau uwchraddio sefyllfa unigolion â statws preswylydd cyn-sefydlog cymwys yn awtomatig i statws preswylydd sefydlog heb iddynt orfod gwneud cais am hynny. Caiff data cyrff y llywodraeth fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEF eu defnyddio i asesu pwy sy'n gymwys. Os na all y Swyddfa Gartref uwchraddio statws unigolyn yn awtomatig, bydd yn rhoi gwybod iddo, gan ofyn iddo wneud cais yn cynnwys tystiolaeth ei fod wedi bod yn byw yn y DU am bum mlynedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y rhai sydd â statws preswylydd cyn-sefydlog sydd wedi byw yn y DU yn barhaus am o leiaf bum mlynedd yn dal i ddewis gwneud cais am statws preswylydd sefydlog ymlaen llaw.

## Rhagor o gyngor a chymorth

Os oes gan ddinasyddion yr UE gwestiynau am eu hawl i astudio yng Nghymru, eu cymhwystra i gael benthyciadau i fyfyrwyr neu os ydynt yn cael anawsterau wrth gael mynediad at addysg, gallant ofyn am help a chyngor yma:

**Addysg Gynradd ac Uwchradd:**
Dewis ysgol – Cartref – Snap Cymru www.snapcymru.org/help-for-families/choosing-a-school/

**Addysg Bellach ac Uwch:**
Cyllid Myfyrwyr Cymru www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/

**Astudio ym Mhrifysgolion Cymru:**
www.wales.com/lifestyle/studying/universities-wales

## Cwestiynau Cyffredin am Gyflogi Dinasyddion yr UE

**A fydd rhaid imi dalu er mwyn i'm plant gael addysg/mynychu ysgol?**
Mae addysg ar gael am ddim mewn ysgolion sy'n cael eu rheoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae gan rieni a gofalwyr ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu plant yn mynychu ysgol. Mae'n drosedd cadw'ch plant i ffwrdd o'r ysgol heb reswm. Gallwch gofrestru'ch plentyn ar gyfer ysgol drwy'ch awdurdod lleol.

**A oes angen i'm plant siarad Cymraeg neu Saesneg i fynychu ysgol?**
Nac oes, byddan nhw'n cael cymorth i gyfathrebu a dysgu Saesneg a/neu Gymraeg.

**Sut allaf ddysgu Saesneg neu wella fy Saesneg?**
Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cyrsiau 'Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill' (ESOL). Nod y rhain yw'ch helpu i ddysgu Saesneg a gwella'ch Saesneg. Mae'r cyrsiau hyn yn aml ar gael am ddim ac yn cael eu darparu mewn llawer o ardaloedd ledled Cymru.
www.llyw.cymru/saesneg-ar-gyfer-siaradwyr-ieithoedd-eraill-datganiad-polisi

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51440, ISBN digidol 978-1-83715-331-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg